**GRŴP ECOSYSTEM YR UCHELDIROEDD PBC**

**CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD – 25 Chwefror 2010**
**Techniwm, Aberystwyth**

**Presennol**
Barbara Jones (CCGC a Chadeirydd), Helen Buckingham (YG), Steve Chambers (LlCC), Mike Jenkins (AAC), Charles Morgan (PONT), Dafydd Roberts (APCE), Jan Sherry (CCGC), Reg Thorpe (RSPB), Chris Tucker (CCC), Jessica Tyler (YG – Abergwesyn).

**Ymddiheuriadau**
Gareth Ellis (APCBB), Clive Faulkner (Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn), Peter Jennings (Dŵr Cymru), Peter Jones (CCGC), Bev Lewis (Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog), Marion Thompson (Heather Trust), Sian Whitehead (CCGC)

**Camau a drosglwyddwyd o'r cyfarfod ar 12 Hydref 2010**

Bev Lewis i anfon manylion prosiectau Darren Fawr ac Ongar Uchaf at Barbara Jones.
Clive Faulkner i ddosbarthu rhagor o fanylion am Grŵp Mawndir Powys. WEDI'I WNEUD

**Camau o'r cyfarfod ar 25 Chwefror 2010**

| **CAM GWEITHREDU** | **GAN BWY** | **ERBYN PRYD** |
|---|---|---|
| Crynhoi gwybodaeth ar y prosiect arfaethedig diweddar o Aberdeen ynghylch diogelu mawn rhag taliadau "credyd / gwrthbwyso carbon" | CF | 1 Meh 2010 |
| Pawb i drosglwyddo sylwadau ar y CGGC drafft presennol ar orgorsydd i PJ/JS/BJ | Pawb | 2 Maw 2010 |
| Ychwanegu geiriau safonol i'r holl CGGC ar draws pob grŵp er mwyn i gronfeydd LlCC daro camau gweithredu Canlyniad 21 a'r targed o 95% ar gyfer tir sy'n eiddo i gyrff anllywodraethol/ awdurdodau lleol yn CGGC yr ucheldir | JS | 2 Maw 2010 |
| CCGC (a'r RSPB?) i gyfarfod y prif dirfeddianwyr (YG ac APCBB i ddechrau, yna'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Cwmnïau Dŵr o bosibl) i drafod agwedd y Fframwaith Ucheldiroedd at flaenoriaethu camau gweithredu ar eu tir ac integreiddio camau gweithredu ar draws cynefinoedd | BJ, HB a GE i ddechrau | 31 Mai 2010 WEDI'I WNEUD |
| Pob sefydliad i ddod â rhestr "5 uchaf" o syniadau pendant i'r cyfarfod nesaf o ran y blaenoriaethau cynefin/rhywogaeth pwysicaf (safleoedd a phroblemau) yn eu meysydd gwaith unigol, er mwyn cyfrannu at ymarfer blaenoriaethu ar lefel Cymru, y gellir eu bwydo'n ôl wedyn i'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i'w gweithredu (gweler y nodyn ar gyfarfod Mehefin isod) | Pawb | 23 Meh 2010 |
| Staff asiantaeth statudol (nid CCC) (ac eraill) i anfon y 5 prif fater yn ymwneud â gwarchod/adfer bioamrywiaeth yn yr ucheldiroedd y mae arnom angen i LlCC eu cynnwys yn y Cylch | Pawb | 12 Ebrill 2010 |

| | | |
|---|---|---|
| Gorchwyl/Llythyrau Grantiau Strategol nesaf, at BJ. | | |
| Darganfod beth yw'r sefyllfa o ran mapiau "FLUC" CCC | CT | 31 Maw 2010 |
| Olrhain mater arweinwyr academaidd gyda Diana ar gyfer pob CGGC | JS | 31 Maw 2010 |
| Anfon gwybodaeth am Safleoedd Allweddol Llygod Pengrwn y Dŵr Cymru diweddar at JS | MJ | 23 Meh 2010 |
| Anfon gwybodaeth am Ardaloedd Planhigion Pwysig Cymru at JS | Trevor Dines | 23 Meh 2010 |
| Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer Rhostir yr Ucheldir ar ystâd LlCC | CT, BJ, JS, RT | 23 Meh 2010 |
| Anfon cynnig a chais prosiect gwaith rheoli *Rhododendron* yn Hafod Lwyfog at Bill Somerfield yn LlCC | HB | 1 Maw 2010 WEDI'I WNEUD |
| Darganfod y dyddiad cau (amserlen) ar gyfer bwydo camau gweithredu rhywogaethau o'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau i'r CGGC | JS | 8 Maw 2010 WEDI'I WNEUD |
| Holi Stephen Bladwell pryd y bydd anghenion a mapiau a drafftiau rhywogaethau yn ymddangos ar wefan PBC ac a fydd yna ddull cyffredin o gynhyrchu gofynion cynefinoedd ar gyfer gwahanol rywogaethau. | RT | 8 Maw 2010 |
| Holi LlCC pryd y bydd y prosiect gorgors/cwtiaid aur yn cychwyn ar Elenydd | RT | 8 Maw 2010 |
| Annog Partneriaethau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i fwydo cynlluniau gweithredu ucheldiroedd (wedi'u grwpio neu fel arall) i'r grŵp yma (fel y gwnaeth Caerfyrddin yn ddiweddar) | Pawb | Ar y gweill |
| Mae deddfwriaeth amgylcheddol (e.e. Adran 28 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad) eisoes mewn grym i amddiffyn safleoedd yng Nghymru ond gall CCGC a LlCC fod yn gyndyn o'i defnyddio - cyfleu'r neges i'r grŵp polisi fod angen gwella hyn | BJ | Pan geir cais nesaf i gyhoeddi polisi |
| Mynd ar drywydd y cynllun ar gyfer adfer rhosydd ar y Carneddau | BJ, HB, DR | 23 Meh 2010 |
| E-bostio darluniau o'r mathau o gynefin a'u cyflwr fel arweiniad ar gyfer tirfeddianwyr a ddatblygwyd gan PONT i'r grŵp cyfan | CM | 2 Maw 2010 WEDI'I WNEUD |
| Anfon ateb at David Morris yn LlCC yn pwysleisio'r angen am agwedd gydgysylltiedig at hyfforddiant technegol staff Glastir LlCC fel rhan o'r rhaglen Glastir a'r defnydd posibl o ganllawiau darluniadol | BJ | 8 Maw 2010 |
| Mae cynlluniau cyffredinol y DU ar gyfer y 3 CGGC ucheldir "newydd" ar fin cael eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth. Eu dosbarthu i'r grŵp | BJ | 31 Maw 2010 |

**<u>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</u>**

23 Mehefin 2010 (y Canolbarth - lle ac amser i'w benderfynu). Bydd hwn yn gyfarfod pwysig lle byddwn yn blaenoriaethu lle a beth yw'r prif gamau gweithredu sydd eu hangen yn ucheldiroedd Cymru i ddiogelu/adfer cynefinoedd a rhywogaethau. Bydd hyn yn darparu rhestr flaenoriaeth ar gyfer Partneriaethau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cyrff anllywodraethol a chyrff statudol ar gyfer gweithredu yn yr ucheldiroedd ac yn helpu i ganolbwyntio adnoddau megis y "Grant Bioamrywiaeth"

PBC newydd arfaethedig ar y gofynion mwyaf taer.  Hoffwn annog pob un ohonoch i fynychu oherwydd dylai ein trafodaethau greu canllawiau dylanwadol iawn o ran diogelu'r ucheldiroedd Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn cysylltu â chi i gyd yn ystod y misoedd nesaf am wybodaeth a chyfraniadau er mwyn paratoi ar gyfer hyn.

2 Tachwedd 2010 (gallai hyn newid a dod yn achlysur "dros nos" os awn i leoliad "safle gweithredu" a chyfuno hynny â chyfarfod ffurfiol – i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod Mehefin)